***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1364 (Cy. 359)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 10.05 a.m. ar 1 Rhagfyr 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Rhagfyr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 5(3) o Fesur Plant a Theuluoedd 2010(**1**) ac adrannau 84(2)(a) a 174(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**2**) ("Deddf 2021").

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o Ddeddf 2021(**3**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "strategaeth tlodi plant" yw strategaeth sy'n nodi pob un o'r pethau a bennir yn adran 2(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

(b) ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

(c) ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(d) ystyr "cyfnod y strategaeth" yw'r cyfnod y mae strategaeth tlodi plant mewn perthynas ag ef.

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) 2021 dsc 1.
(**3**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ar gyfer darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

**Cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn**

**3.**—(1) Cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth tlodi plant gyntaf a lunnir gan gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar 1 Ionawr 2022 neu cyn hynny yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

(2) Cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth tlodi plant gyntaf a lunnir gan gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar ôl 1 Ionawr 2022 yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir y strategaeth (gweler rheoliad 4(2)), a

(b) sy'n dod i ben ar 31 Mawrth yn y drydedd flwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn galendr y cyhoeddir y strategaeth ynddi.

(3) Cyfnod y strategaeth ar gyfer strategaethau tlodi plant dilynol yw'r cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn union ar ôl diwedd cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth flaenorol.

**Amseriad cyhoeddi'r strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn**

**4.**—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar 1 Ionawr 2022 neu cyn hynny gyhoeddi ei strategaeth tlodi plant gyntaf ar 1 Ebrill 2023 neu cyn hynny.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar ôl 1 Ionawr 2022 gyhoeddi ei strategaeth tlodi plant gyntaf heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y dyddiad y sefydlir y cyd-bwyllgor corfforedig.

(3) Rhaid i strategaethau dilynol gael eu cyhoeddi ar y dyddiad y mae cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth yn dechrau neu cyn hynny.

**Dull cyhoeddi strategaeth tlodi plant**

**5.**—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig gyhoeddi strategaeth tlodi plant drwy ei rhoi ar ei wefan ar y dyddiad y cyhoeddir y strategaeth a rhaid iddo gynnal y strategaeth ar y wefan honno drwy gydol cyfnod y strategaeth.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig wneud trefniadau i anfon copi o unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan baragraff (1) pan ofynnir amdano i unrhyw aelod o'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y gofynnir am gopi.

**Adolygiad o'r strategaeth tlodi plant**

**6.**—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig adolygu pob un o'i strategaethau tlodi plant cyn diwedd cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth o dan sylw.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig lunio adroddiad ar y cyfryw adolygiad a rhaid iddo gyhoeddi'r adroddiad adolygu drwy ei roi ar ei wefan.

(3) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig wneud trefniadau i anfon copi o unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan baragraff (2) pan ofynnir amdano i unrhyw aelod o'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y gofynnir am gopi.

**Gofyniad ymgynghori**

**7.** Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig, cyn cyhoeddi strategaeth tlodi plant, ymgynghori â Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a phersonau eraill sydd, yn nhyb y cyd-bwyllgor corfforedig, yn briodol.

**Diwygio Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011**

**8.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011(**4**), yn lle "nac awdurdod lleol" rhodder ", awdurdod lleol na chyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Am 10.05 a.m. ar 1 Rhagfyr 2021

(**4**) O.S. 2011/675 (Cy. 98).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraniad awdurdodau Cymreig at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn awdurdodau Cymreig at ddiben y Mesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r cyfnod amser y mae strategaeth tlodi plant a lunnir gan gyd-bwyllgor corfforedig mewn perthynas ag ef, pa bryd y dylai'r strategaeth gael ei hadnewyddu, pa bryd a sut y dylai'r strategaeth gael ei chyhoeddi a sut y gellir ei harchwilio.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011, drwy ddatgymhwyso'r Rheoliadau hynny i gyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a sefydlodd gyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.